

Polisi'n amlinellu gwasanaethau a ddarperir gan yr Archifau Gwladol i bobl Cymru yn y Gymraeg

Crynodeb

Fel y swyddfa gofnodion wladol i Gymru, rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddarparu rhai gwasanaethau i bobl Cymru yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ym maes cofnodion ac archifau a gweinyddiaeth Cymru.

Yr ydym yn ymrwymo i:

- ateb yn y Gymraeg ymholiadau ysgrifenedig a dderbynnir yn y Gymraeg
- darparu cyfieithiadau Cymraeg o ddogfennau deholedig a gynhyrchir yn fewnol, fel a ddiffinnir yn 4.1
- parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol am gyhoeddi Deddfau Cynulliad Cymru ac offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru
- gwahodd unigolyn neu unigolion 'cymwysedig addas' i gynrychioli pobl Cymru mewn cyfarfodydd lle mae buddiannau Cymreig yn y fantol

Fel arfer, adolygir y polisi hwn bob tair blynedd.

Cynnwys

1. Diben
2. Cefndir
3. Gohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir yn y Gymraeg
4. Darparu yn y Gymraeg ddogfennau detholedig a gynhrychir yn fewnol
5. Cyhoeddi deddfwriaeth
6. Cynrychiolaeth Cymru mewn cyfarfodydd lle mae buddiannau Cymreig yn y fantol
7. Adolygu

1. Diben

- 1.1 Datganiad yw'r polisi hwn ynghylch yr ystod o wasanaethau yr ydym yn eu darparu i bobl Cymru yn rhinwedd ein swyddogaeth fel y swyddfa gofnodion wladol i Gymru.
- 1.2 Nid at ddibenion cyfeirio mewnol yn unig y mae'r polisi, ond mae hefyd yn ddatganiad cyhoeddus sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir gennym i bobl Cymru gyda ffocws arbennig ar le yr ydym yn ymrwymedig i wneud hynny yn y Gymraeg.

2. Cefndir

- 2.1 Yn ogystal â chreu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dynododd Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 gofnodion sy'n ymwneud â gweinyddiaeth Cymru yn 'gofnodion cyhoeddus Cymru' (ceir diffiniad llawn yn adran 148 Deddf Llywodraeth Cymru 2006).
- 2.2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn dweud, er bod cofnodion cyhoeddus Cymru yn syrthio y tu allan i'r diffiniad o gofnod cyhoeddus fel a nodir yn Atodlen 1 Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, y dylid eu trin fel pe baent yn gofnodion cyhoeddus nes i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi gorchymyn i drosglwyddo cyfrifoldeb am y cofnodion i Weinidogion Cymru neu'u staff.
- 2.3 Dylid nodi nad yw cofnodion swyddogaethau neilltuedig sy'n ymwneud â Chymru, h.y. swyddogaethau nad ydynt wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru neu'u swyddogion, yn syrthio'n gyffredinol o fewn y diffiniad o 'gofnodion cyhoeddus Cymru'.
- 2.4 Hyd nes y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n sefydlu swyddfa gofnodion swyddogol i Gymru sy'n cyfateb i Gofnodion Gwladol yr Alban a Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, bydd yr Archifau Gwladol yn cyflawni'r swyddogaeth honno. Yn rhinwedd ein rôl fel y swyddfa gofnodion wladol i Gymru, rydym yn dethol cofnodion cyhoeddus Cymru i'w cadw'n barhaol, yn diogelu'r cofnodion hynny ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo ac yn sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.
- 2.5 Mae'r polisi hwn yn nodi'r gwasanaethau ychwanegol yr ydym yn ymrwymedig i'w darparu i bobl Cymru wrth gydnabod y rôl honno.
- 2.6 Cyfrifoldeb Argraffydd y Frenhines, swydd sy'n gweithredu o'r tu mewn i'r Archifau Gwladol, yw argraffu'r fersiwn awdurdodol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a sicrhau ei bod ar gael. Mae'r polisi hwn hefyd yn nodi sut bydd fersiynau Cymraeg o ddeddfwriaeth yn cael eu darparu.

3. Gohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir yn y Gymraeg

- 3.1 Byddwn yn ateb yn Gymraeg yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir gennym yn y Gymraeg. Mae gohebiaeth ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau ac e-byst yn ogystal ag ymholiadau a dderbynnir trwy un o'r ffurflenni cyswllt ar y wefan. Byddwn yn ateb yr ohebiaeth hon o fewn yr amser penodedig arferol.
- 3.2 Ni chyfieithir cofnodion gwreiddiol a bydd unrhyw ddyfyniadau o gofnodion gwreiddiol sydd yn ein hatebion neu sydd wedi'u hatodi iddynt yn aros yn yr iaith y'u hysgrifennwyd ynddi. Fodd bynnag, byddwn yn cyfieithu canllawiau ymchwil a chanllawiau chwiliadau y telir amdanynt sy'n berthnasol i'r ymholiad.
- 3.3 Ni fyddwn yn darparu unrhyw un o'n gwasanaethau gwybodaeth a chynghori llafar, amser real neu nodau cyfyngedig – ar y safle, dros y ffôn neu ar-lein – yn y Gymraeg. Ni ellir cyfiawnhau darparu'r gwasanaethau hyn ar sail cost a'r galw.

4. Darparu yn y Gymraeg ddogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol

4.1 Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau detholedig a gynhyrchir yn fewnol ac fel arfer byddwn yn sicrhau bod y rhain ar gael ar y wefan neu drwy'r post neu'r ddau. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys taflenni, safonau, papurau ymgynghori, datganiadau polisi ac yn y blaen a gedwir yn electronig ac ar ffurf copi caled. Fel a nodir uchod, nid ydynt yn cynnwys cofnodion gwreiddiol. Mae'r meini prawf ar gyfer dethol dogfennau i'w cyfieithu fel a ganlyn:

- Dogfennau a anfonir fel mater o drefn mewn ymateb i ymholiadau ysgrifenedig. Mae hyn yn bennaf i gynorthwyo wrth gyflawni'r ymrwymiad yn adran 3
- Dogfennau sy'n ymwneud â Chymru a phobl Cymru, (e.e. Polisi Dethol Gweithredol 7 ar gyfer y Swyddfa Gymreig, 1979 hyd at 1997)
- Dogfennau sy'n perthyn yn agos i ddeunyddiau eraill yn y Gymraeg

4.2 Ni chyfieithir dogfennau os bydd unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn berthnasol:

- Maent yn cynnwys iaith hynod gymhleth neu dechnegol e.e. y canllawiau mwyaf technegol ar reoli cofnodion
- Ni ellir cyfiawnhau cyfieithu ar sail y gost neu'r ymarferoldeb, (e.e. adroddiad blynyddol y Ceidwad a thudalennau'r wefan, yn hytrach na dogfennau a atodir i'r wefan)
- Nid oes galw digonol amdanynt

4.3 Pan fyddwn yn darparu prosiectau ar y cyd â chyrrff Cymreig, cytunir ar y cyfrifoldeb am sicrhau cynhyrchu deunyddiau Cymraeg fel rhan o ddatblygu'r prosiectau.

4.4 Byddwn yn cynnal rhestr o'r dogfennau a ddarperir gennym yn y Gymraeg. Bydd y rhestr ar gael ar y wefan ac ar gais.

5. **Cyhoeddi deddfwriaeth**

- 5.1 Mae Deddf Tystiolaeth Ddogfennol 1882 yn darparu amddiffyniad ac awdurdod cyfreithiol ar gyfer deddfwriaeth argraffedig a gyhoeddir o dan oruchwyliaeth Argraffydd y Frenhines, gan gynnwys Deddfau ac offerynnau statudol Cymru.
- 5.2 Cyhoeddir Deddfau a Mesurau Cynulliad Cymru yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 5.3 Mae gan Argraffydd y Frenhines hefyd gyfrifoldeb statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a newidiodd Ddeddf Offerynnau Statudol 1946) am oruchwyllo cyhoeddi offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Bu Deddf 1946 a Rheoleiddiadau Offerynnau Statudol 1947 (O.S. 1948 Rhif 1) yn nodi'r gwahanol bwerau a dyletswyddau ar Argraffydd y Frenhines i gofrestru, rhifo, argraffu a chyhoeddi Offerynnau Statudol, gan gynnwys offerynnau statudol Cymru.
- 5.4 Byddwn yn parhau i ddarparu fersiwn Gymraeg o wefan legislation.gov.uk. Rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi deddfwriaeth i Gymru'n gyflym ac fel mater o drefn fel data agored o safon uchel mewn fformatiau modern, sydd ar gael i bawb i'w hailddefnyddio gan gynnwys at ddefnydd masnachol.

6. Cynrychiolaeth Cymru mewn cyfarfodydd lle mae buddiannau Cymreig yn y fantol

- 6.1 Byddwn yn sicrhau y bydd y rhai sy'n cynnull cyfarfodydd sy'n ymwneud yn arbennig â phobl Cymru yn enwebu neu'n gwahodd unigolyn neu unigolion 'cymwysedig addas' i gynrychioli buddiannau pobl Cymru.
- 6.2 Bydd yr Archifau Gwladol yn ad-dalu i'r unigolyn neu unigolion enwebedig unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth a godir yn rhesymol ac yn angenrheidiol wrth deithio i'r cyfarfod neu'r cyfarfodydd ac yn ôl.
- 6.3 Mae cyfarfodydd yn debygol o gael eu cynnal yn yr Archifau Gwladol ac fe'u cynhelir drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw'r Archifau Gwladol yn ymrwymo i ddarparu cyfieithu ar y pryd i'r unigolyn neu'r unigolion enwebedig.

7. **Adolygu**

- 7.1 Adolygir y polisi hwn bob tair blynedd neu pan fydd swyddfa gofnodion swyddogol i Gymru'n cael ei sefydlu neu pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn mynnu hynny.